OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1176 (Cy.124)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*25 Ebrill 2002*
Yn dod i rym - -	*30 Ebrill 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 55 (3) a 118(5) a (6) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Gofal Cymru a sefydlwyd o dan adran 54(1) o'r Ddeddf;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000.

Personau sydd i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol

3. At ddibenion y swyddogaeth sydd gan y Cyngor o dan adran 54(3) o'r Ddeddf yn unig mae personau o unrhyw un o'r disgrifiadau yn is-baragraffau (a) i (g) o baragraff (3) o adran 55 o'r Ddeddf i'w trin fel gweithwyr gofal cymdeithasol.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol ("appropriate Minister"). Diffinnir yr "appropriate Minister" yn adran 121(1). Mae'n golygu'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru (mae adran 5(b) yn darparu mai ystyr "y Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru); mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'n golygu'r Ysgrifennydd Gwladol. Diffinir "*regulations*" yn adran 121(1) o'r Ddeddf.